

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Mehefin 2022

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cyngorwyr D Fouweather (Cadeirydd), T Watkins, K Thomas, A Sterry,
P Hourahine, T Harvey, A Pimm, M Spencer and E Stowell-Corten

Felicity Collins

1 Ymddiheuriadau

Dim.

2 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

3 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2022

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod olaf ar 30 Mawrth 2022 fel cofnod cywir.

4 Blaenraglen Waith 2022/23

Gareth Price - Pennaeth y Gyfraith a Safonau

Leanne Rowlands – Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol

Crynhodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau gylch gorchwyl a diben y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd; sef goruchwyllo'r ddarpariaeth effeithiol o swyddogaethau democrataidd y Cyngor a sicrhau bod digon o adnoddau i hwyluso cefnogaeth i Aelodau wrth gyflawni eu rolau. Roedd Mesur Llywodraeth Leol Cymru yn ei gwneud hi'n ofyniad statudol i bob cyngor gael Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar waith i gyflawni'r swyddogaethau statudol hyn. Diwygiwyd y mesur wedyn gan Ddeddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013, i ddarparu ar gyfer ystod ehangach o swyddogaethau. Mae gan bwyllgor hefyd oruchwyliaeth dros gyfansoddiad ysgrifenedig y cyngor ac i fonitro a goruchwyllo hyfforddiant a datblygiad Aelodau.

Cyflwynwyd Aelodau'r Pwyllgor i Leanne Rowlands, y Rheolwr Democrataidd a Gwasanaethau Etholiadol, sef y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dynodedig, a'i dyletswydd yw adrodd yn flynyddol ar adnoddau'r tîm Gwasanaethau Democrataidd wrth gefnogi'r Cyngorwyr.

Cafodd yr aelodau eu cynghori mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn fwrdd amhleidiol sy'n edrych i swyddogaethau'r cyngor ac nid yw'n gyfarfod gwleidyddol ar y cyfan. Soniwyd nad pwyllgor gwneud penderfyniadau mohono, ond er hynny gall yr Aelodau wneud argymhellion i'r cyngor llawn ar y cyfansoddiad ac i wella strwythur llywodraethu corfforaethol y cyngor. Croesawodd y swyddogion gwestiynau gan y Pwyllgor.

Cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Holodd y Cynghorydd Spencer a fyddai mwy o ddyddiadau cyfarfod ad-hoc.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth bod disgwyl i'r pwyllgor gyfarfod bob chwarter ond y gallai drefnu mwy o gyfarfodydd i mewn os daw gwaith aml i mewn i'r pwyllgor adolygu.

- Cafodd pwyllgor ei gynghori y gallent hefyd gytuno ar amllder ac amseru'r cyfarfodydd.

Parhaodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau i roi trosolwg byr o weddill yr adroddiad gan gwmpasu'r hyn fyddai ar yr agenda yn y blaenraglen waith. Amlygodd y Prif Swyddog fod y swyddogion wedi mynd â nifer o adroddiadau i Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor llawn ym mis Mai 2022 i'w mabwysiadu i adlewyrchu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd hybrid, y strategaeth cyfranogi a hefyd y cynllun deisebau newydd i'r cyngor. Eglurwyd ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor fonitro effeithiolrwydd y polisïau hyn, a chadw pob un o'r rhain dan adolygiad a gallant ddewis pryd i dderbyn yr adroddiadau monitro hyn.

Gan mai newydd gael eu cyflwyno fel polisïau oedd y cynllun deisebau a'r cyfarfodydd hybrid, argymhellodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y dylai'r Pwyllgor ohirio monitro'r polisïau hyn tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn, os hoffai hynny. Amlygwyd bod gan y strategaeth cyfranogiad ac ymgysylltu nifer o amcanion y gellid eu cyflwyno yn yr agenda os hoffai'r Aelodau drafod y rhai mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Ar gyfer cyfarfod mis Medi, cynghorwyd yr Aelodau fod gofyniad cyfreithiol mewn deddfwriaeth i lunio canllaw yn y cyfansoddiad i'r broses o wneud penderfyniadau. Bwriad y swyddogion yw gwneud y drefn yn haws i'w deall a byddant yn edrych i gyflwyno ar hynny i'r Aelodau yn y cyfarfod nesaf.

Ymhellach i'r drafodaeth, nododd y Swyddog Arweiniol i'r Pwyllgor mai'r eitem agenda arall ar gyfer y cyfarfod nesaf, yn sgil strategaeth ymgysylltu fydd y trefniant ar gyfer cyfarfodydd ward. Amlygwyd bod y rhain wedi bod i lawr i ddisgresiwn cynghorwyr y ward; gan fod gan rai ardaloedd nifer uchel o bleidleiswyr tra na fyddai eraill. Hyd yn oed os nad yw hynny'n newid, hoffai'r cyngor edrych i sut mae'r cyfarfodydd yn cael eu cefnogi a'u strwythuro; Dywedodd y swyddog y byddant yn edrych i ddod ag awgrymiadau i mewn ar sut i symud y trefniadau hynny ymlaen.

Cytunodd y Pwyllgor ar y blaenraglen waith, fel y nodir yn yr adroddiad a chytunodd ar gyfarfod nesaf dydd Llun 12 Medi am 10am ac amseru'r cyfarfodydd.

5 Cynllun Diwygiedig Dirprwyo i Swyddogion

Gareth Price - Pennaeth y Gyfraith a Safonau

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth fod swyddogion wedi mynd ag adroddiad i Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor Llawn ym mis Mai ar y cynllun dirprwyo, ond nododd bod ychydig o faterion wedi bod ar y cynllun gweithredu presennol ers hynny a chynghorodd yr Aelodau y byddai'r adroddiad yn edrych i fynd i'r afael â'r anghysonderau hynny. Rhoddodd y swyddog drosolwg byr i'r Pwyllgor ar yr adolygiad ar gyfer gwelliannau a argymhellir.

Y newid cyntaf a grybwyllwyd oedd pwerau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer yr etholiadau, sy'n cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr o dan ran wahanol o'r cyfansoddiad yn ymwneud â dyrannu cyfrifoldebau.

O'r etholiad diweddar, roedd Cyngor Cymuned heb gworwm felly roedden nhw'n ceisio defnyddio pwerau ar gyfer mesurau dros dro er mwyn iddyn nhw allu cyfethol.

Daeth i sylw'r swyddogion nad oedd y pwerau a ddirprwywyd i'r Prif Weithredwr mewn manau eraill yn y cyfansoddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun dirprwyo yn y cyfansoddiad presennol. Felly fel pwynt eglurder, roedd angen diweddarau'r cynllun dirprwyo i gynnwys y pwerau etholiadol hynny. Roedd yna hefyd rai mân newidiadau eraill i adlewyrchu ail-alinio gwasanaethau i wahanol Benaethiaid Gwasanaeth.

Yr un newid sylweddol y gofynnodd y Swyddogion i'r Aelodau argymhell i'r Cyngor oedd gwneud y newid yn y cynllun dirprwyo ar gyfer penderfyniadau cynllunio. Ar hyn o bryd, mae pob cais cynllunio mewn perthynas ag eiddo ac asedau corfforaethol sy'n eiddo i'r cyngor yn mynd i'r pwyllgor cynllunio; roedd y cyn-

Bennaeth Adfywio yn meddwl taw gwrthdaro oedd hyn gan fod y rheolwr eiddo corfforaethol hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli, ac roedd yn teimlo ei bod yn amhriodol i swyddog benderfynu ar gais cynllunio a hefyd bod ar yr ochr rheoli asedau. Felly, roedd yn rhaid cyfeirio pob cais cynllunio mewn perthynas ag eiddo corfforaethol ac asedau at y Pwyllgor Cynllunio i benderfynu, waeth pa mor fach oedd y ceisiadau.

Mae trosglwyddo'r swyddogaeth eiddo corfforaethol i Bennaeth Gwasanaeth arall, yn dilyn yr uwch ailstrwythuro rheoli, yn rhoi cyfle i roi'r pŵer i swyddogion cynllunio ddelio â mân geisiadau sy'n ymwneud ag asedau ac eiddo'r cyngor. Mae rôl y cleient ar gyfer asedau ac eiddo bellach wedi'i drosglwyddo i Bobl, Polisi a

Thrawsnewid, a bod gwasanaeth bellach yn gyfrifol am unrhyw gais cynllunio mewn perthynas ag eiddo corfforaethol ac asedau. Mae gan Bennaeth Adfywio Economaidd y cyfrifoldeb dros gyflawni'r swyddogaeth rheoli datblygiad ar wahân. Byddai gwahanu'r swyddogaethau hynny yn dileu'r angen i fân geisiadau fynd i'r

Pwyllgor Cynllunio a gallai'r swyddogion ddelio â nhw o dan y cynllun dirprwyo. Gyda cheisiadau cynllunio mwy sylweddol, sy'n disgyn y tu allan i gynllun dirprwyo swyddogion, byddent yn dal i fynd i'r Pwyllgor Cynllunio. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau na fyddai'r broses galw i mewn yn newid, lle gall Aelodau gyfeirio unrhyw benderfyniadau dirprwyedig gan swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio, gan roi rhesymau cynllunio dilys dros wneud hynny. Croesawodd y swyddogion gwestiynau gan y pwyllgor.

Cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Soniodd y Cadeirydd y byddai ceisiadau cynllunio Aelodau etholedig ar eu cartrefi eu hunain yn y gorffennol yn mynd at Bwyllgor Cynllunio; ac ymholiadau a fyddai hyn yn dal i fod yn berthnasol yn dilyn y newid.

Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau na fyddai unrhyw beth yn newid o ran y broses ymgeisio cynllunio, lle mae gan unrhyw aelod etholedig ddiddordeb personol yn y canlyniad, boed hynny fel ymgeisydd neu wrthwynebydd. Byddai'n rhaid eu cyfeirio o hyd at y Pwyllgor Cynllunio i'w benderfynu. Er mwyn tryloywder, byddai'r un peth yn wir am geisiadau mewnol lle mae swyddog yn cyflwyno cais ac mae ganddo gysylltiad agos gyda'r adran gynllunio. Cafodd yr aelodau wybod y byddai'r math yna o geisiadau cynllunio yn dal i fynd i'r Pwyllgor Cynllunio waeth beth fo'u bod yn fân neu'n arwyddocaol.

- Nododd y Cynghorydd K. Thomas ei bod yn cael trafferth clywed y drafodaeth drwy Microsoft Teams fel y gwnaeth rhai o'r Aelodau eraill a ymunodd â'r cyfarfod o bell, adroddwyd ar y meicroffonau'n tawelu ar adegau.

Nododd y Cadeirydd i'r Aelodau y byddai cofnodion y cyfarfod yn adlewyrchu'r adroddiad a ddarparwyd ac os oes gan unrhyw Aelodau gwestiynau ar yr un peth; byddai Pennaeth y Gyfraith a Safonau yn egluro unrhyw bwyntiau ar eu cyfer.

Argymhellion

Rhoddodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd ystyriaeth i argymhellion y swyddog a derbyniodd y Cynllun Dirprwyo Swyddogion Diwygiedig gyda'r gofyniad i ddiweddarau'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio ac adlewyrchu pwerau'r Prif Weithredwr i gyflawni swyddogaethau penodol mewn perthynas ag etholiadau.

Argymhellodd y Pwyllgor i gyfarfod llawn y Cyngor ddydd Mawrth 19 Gorffennaf bod y Cynllun Dirprwyo swyddogion diwygiedig yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu'n ffurfiol a diweddarau'r cyfansoddiad yn unol â hynny.

6 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Dydd Llun 12 Medi 10am - 12pm

Daeth y cyfarfod i ben am 10:24am